

Cydymdeimlad a Chofion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw ag Elinor Owen (Llansannan) a Richard Owen (Cefn Berain) a gweddill y teulu yn eu profedigaeth o golli Mr Nefydd Owen, tad Elinor a Richard. Gweddiwn y byddwch yn profi heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu yn eich amgylchynu yn eich galar, eich tristwch a'ch hiraeth amdano. Cofiw'n hefyd am eraill sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cyflwynwn hwythau hefyd yn dyner i ofal yr Arglwydd. Ein gweddi yw y bydd pawb sy'n galaru am anwyliaid yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Balch oeddem o glywed fod Elena Owen (Llanefydd) bellach wedi cael y llawdriniaeth y bu'n disgwyl mor hir amdano a'i bod yn cael gofal da yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati hi ac at Elwy Owen gafodd lawdriniaeth ychydig wythnosau yn ôl, a'n dymuniadau gorau i'r ddau am adferiad iechyd buan iawn. Anfonwn ein cofion hefyd at Richard M. Jones (Cefn Berain) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, ac at bawb arall sydd wedi derbyn amrywiol driniaethau yn ystod y pythefnos ddiwethaf ond na fu'n rhaid iddyn nhw aros i mewn dros nos yn yr ysbyty. Fe'ch cyflwynwn oll i ofal Duw gan ofyn iddo gysgodi drosoch a thros eich anwyliaid yr un modd.

Yn dilyn treulio rhai misoedd yn yr ysbyty, mae Dilys Jones (Nantglyn) wedi symud i Gartref St David's yn Y Rhyl am gyfnod. Gobeithio y bydd hi'n setlo yno'n fuan iawn ac y bydd yn profi adferiad a dedwyddwch dros yr wythnosau nesaf.

Mae eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd hefyd a chyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw. Gweddiwn am adferiad iechyd llwyr a buan iddynt ac ar i Dduw roi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Diolch Derbyniwyd neges yn diolch o galon i bawb am yr holl gyfraniadau bwyd a dderbyniwyd er mwyn i'r meddyg sy'n gweithio yn Ysbyty Glan Clwyd ei anfon i ben ei daith yn Wcráin. Mae'r bwyd bellach wedi mynd – diolch i chi am bob rhodd.

Casgliad Cenhadol Merched y Gogledd (EBC)

Mae Sasiwn y Chwirydd wedi newid ei enw erbyn hyn ond mae'r gwaith cenhadol yn parhau ac fe fyddant yn ddiolchgar o bob cyfraniad ariannol tuag at eu casgliad blynyddol er mwyn cefnogi gwaith cenhadol yn lleol a thramor. Os byddwch am gyfrannu, rhowch yr arian i Drysorydd eich eglwys **erbyn Ebrill 10^{fed}**, os gwelwch yn dda. (**Nodyn i'r Trysoryddion:** A wnewch chi roi gwybod i Mair erbyn **Ebrill 11eg** gyfanswm casgliad eich eglwys, ac yna trosglwyddo'r arian i Mair naill ai ar-lein, neu trwy anfon sic yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', mor fuan â phosib wedi hynny, plis?)

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📠 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📠 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (6^{ed}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 27 Mawrth 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Gofynnodd rhywun i mi'n ddiweddar wrth i ni drafod yr erchylltra sy'n digwydd yn Wcráin, sut mae Cristnogion i fod i faddau mewn sefyllfa fel hyn? Cwestiwn anodd ei ateb, ac yn enwedig felly pan ystyriwn loes enfawr pobl Wcráin oherwydd yr ymosodiad dieflig arnynt. Gallwn ddeall a chydymdeimlo'n llwyr wrth wrando ar eu dichter a'u hymrwymiad i sicrhau nad yw Putin a'i luoedd yn ennill y dydd. Dyna pam fod maddeuant yn rhywbeth hawdd i siarad amdano, ond yn gostus eithriadol i'w weithredu o ddifrif. Ein greddf pan fydd rhywun yn gwneud drwg i ni neu'n hanwyliaid yw talu'r pwyth yn ôl, gan geisio gwneud iawn am y poen a'r golled yr ydym ni wedi ei brofi. Wrth faddau i'r rhai sy'n gwneud drwg i ni, rydym yn ymrwmo i frwydro yn erbyn y reddf honno, a pheidio dal gafaél ar chwerwder na chasineb tuag atynt. Yn hytrach, mae Iesu'n ein hannog i wneud daioni i'r bobl sy'n ein casáu, a gweddi dros y rhai sy'n ein cam-drin. (Luc 6:27-28 beibl.net) Bydd angen nerth a chariad rhyfeddol i fedru gwneud hyn – sy'n egluro pam bod Gweddi'r Arglwydd yn clymu'r maddeuant y mae'r Cristion yn ei dderbyn gan Dduw gyda'r maddeuant yr ydym ni i'w ddangos tuag at eraill: *'a maddau inni ein troseddau, fel yr ym ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn.'* (Mathew 6:12) Hynny yw, trwy dderbyn maddeuant a chariad diderfyn Duw yn Iesu Grist, mae'r Cristion yn cael ei ddarparu â'r hyn sy'n gwneud maddau i bobl eraill yn bosib.

Wedi dweud hyn i gyd, rhaid i ni beidio gor-symleiddio pethau nes honni mai maddeuant yw'r unig beth i'w ystyried mewn sefyllfa o'r fath. Yn y Beibl, gwelwn nad yw maddeuant yn dod ar draul cyfiawnder, ac ni ddylai fyth fod yn esgus i ddrygioni barhau. Cofiw'n fod sail Feiblaidd i dichter yn wyneb drygioni ac anghyfiawnder. Maddeuodd Duw ein pechodau wrth i Iesu brofi cosb gyfiawn Duw am bechod yn ein lle ar y Groes. Os ydym wir am garu'n gelynyon, byddwn yn gweddi ac yn gweithredu i atal y drygioni y maent yn ei gyflawni, gan erfyn ar iddynt edifarhau am eu gweithredoedd. Dyma'r unig ffordd i gychwyn y daith hir a phoenus at gymod rhwng dioddefwyr a'r rhai sy'n cyflawni drygioni.

Rhodri

Casgliad Arbennig i Wcráin

Os oes unrhyw un arall yn dymuno cyfrannu trwy'r Ofalaeth, gallwch wneud hynny ar-lein (anfonwch neges i Mair i gael y manylion banc) neu anfonwch sic i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled' gydag 'Wcráin' wedi ei ysgrifennu ar y cefn **cyn diwedd Mawrth**, os gwelwch yn dda. Diolch am bob cyfraniad a dderbyniwyd hyd yn hyn.

Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad os yw'n dioddef hefo'r feirws neu sydd ag unrhyw un o'r symptomau.

Dydd Sul, Mawrth 27^{ain}

- **Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yng Nghefn Meiriadog am 11:00** o dan arweiniad Mr Celfyn Williams.
- **Oedfa Thema yn Henllan am 9:30 ac Oedfa Dydd Gweddi'r Byd yn Groes am 10.00.**
- **Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain ac yn Llanefydd am 10:00.** Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r gwasanaeth yn Llanefydd.
- **Oedfa yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn am 2:00** o dan arweiniad y Parch. Dafydd Job.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Mae'n addas i bob oed, ac mae darpariaeth dwyieithog. Archebwch le trwy glicio ar y ddolen [yma](#) neu cysylltwch â Mair.

Nos Lun, Mawrth 28^{ain} a Pnawn Gwener, Ebrill 1^{af}

- **'Gweddi'r Arglwydd'** – Y sesiwn olaf mewn cyfres o bump astudiaeth Feiblaidd o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Gellir ymuno (ar ZOOM) naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. (Manylion mewngofnodi: <https://uso2web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

Nos Fawrth, Mawrth 29^{ain}

- **Cyfarfod Eglwys Hiraethog** ar ZOOM am 7:30. Manylion ymuno i'w cael gan Mair.

Nos Fercher, Mawrth 30^{ain}

- **Cwrdd Chwarter Annibynwyr Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych **am 7:00 yr hwyr**. Neilltuir cynhadledd y Cwrdd Chwarter i drafod 'Yr Eglwys wedi'r Covid', 'Beth yw 'rôl y cyfundeb?' a 'Pa gymorth fedr y Cyfundeb ei roi?'

Dydd Gwener, Ebrill 1^{af}

- Mae Evan Morgan (Llywydd Y Gymanfa Gyffredinol) yn bwriadu cerdded 70km i godi arian i Apêl Cymorth Cristnogol EBC 2022, sef 'Hadau Gobaith'. Bydd yn cerdded 5km ymhob Henaduriaeth. Os oes unrhyw un am ymuno ar y daith, bydd yn cerdded yn Nyffryn Clwyd ar Ebrill 1af. Cysylltwch â Cheryl Williams (01745 890615) am fwy o fanylion.

Dydd Sul, Ebrill 3^{ydd}

- **Oedfa i'r Daith (Henllan, Groes, Llanefydd a Chefn Berain)** yn Henllan am 10:30 o dan arweiniad Mr Celfyn Williams.
- **Oedfa yn Llanfair am 9:30 ac yn Llansannan am 11:00** o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa'r Fro yn Llansannan am 6:00** gyda Rhodri yn pregethu.

Dydd Mawrth, Ebrill 5^{ed}

- Cynhelir y **Gymdeithasfa yn y Gogledd** yng Nghapel Rehoboth, Prestatyn. Bydd yr eisteddiad cyntaf yn dechrau am 10:00. Gellir ei fynychu yn y capel neu ymuno ar ZOOM. Bydd yr ail eisteddiad yn gyfarfod cyhoeddus ac yn dechrau am 2:00 y prynhawn. Bydd yn cynnwys Darlith Goffa'r Diwygiad a draddodir gan Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth i ddathlu dau canmlwyddiant geni Ieuan Gwyllt, a'r Gwasanaeth Cymun a Choffâd. Dyma'r ddolen i ymuno yn yr ail eisteddiad ar Zoom: <https://uso2web.zoom.us/j/85475249743?pwd=VFk1eTl1NkcraEtSWXJNangrVFNjZz09>. Rhif y cyfarfod: 854 7524 9743; Cyfrinair: 729173. I ymuno dros y ffôn: 0208 080 6592; rhif y cyfarfod (gweler uchod). Croeso i bawb.

Dydd Sul, Ebrill 10^{fed}

- **Cyfarfod Gweddi yn Llansannan ac yn Llanfair am 10:00**, a bydd trefniant lleol yng Nghefn Meiriadog – manylion i ddilyn.
- **Oedfa yng Nghefn Berain am 9:30 ac yn Groes am 11:00** o dan arweiniad Rhodri.
- **Ysgol Sul yn Henllan** am 10:00.
- **Oedfa i'r Daith (Saron a Nantglyn) yn Saron am 10:00** o dan arweiniad Mr Andrew Settatree.
- **'Gwreiddiau'** – Amser o addoliad yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Mae'n addas i bob oed, ac mae darpariaeth dwyieithog. Bydd manylion sut i archebu lle yn y rhifyn nesaf.

I ddod

- **Gŵyl Llanw 2022** yng Nghanolfan Medrus, Aberystwyth ar **Ebrill 18fed-19eg**. Bydd oedfa deulu, addoliad cyfoes, pregethau a sesiynau i'r plant a'r ieuencid. Ewch i wefan Llanw llanw.org/llanw-22 i gael mwy o fanylion ac er mwyn archebu tocynnau.
- **Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu** (23-26 Mai 2022) yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd, Powys, SY16 4AJ. Ni sicrhair lle oni fydd y tâl llawn gan Nerys Rowlands, Ysgrifenyddes y Weinidogaeth Iacháu **erbyn Ebrill 24ain**. Os hoffech fynychu'r Ysgol Haf eleni, cysylltwch â Mair i gael copi o'r rhaglen a ffurflen gofrestru. (Mwy o fanylion yn rhifyn 13 Chwefror 2022 o Llais Bro Aled.)